



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU)

Bwriad y polisi ar gyfer rheoliadau, cyfarwyddiadau
a chanllawiau

Gorffennaf 2015

BIL CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2014 BWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH, CYFARWYDDIADAU A CHANLLAWIAU

Mae'r ddogfen hon yn nodi bwriad y polisi ar hyn o bryd ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, y cyfarwyddiadau a'r canllawiau y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i'w gwneud, neu sy'n ofynnol iddynt eu gwneud o dan ddarpariaethau Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ('y Bil'). Mae Bwriad y Polisi wedi ei gyhoeddi er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor cyfrifol yn ystod y broses graffu ar y Bil a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yw'r cyntaf o dri bil arfaethedig i sefydlu trefniadau treth datganoledig yng Nghymru. Yn dilyn y Bil, cyflwynir deddfwriaeth ar drethi penodol yn sefydlu trethi newydd i Gymru - Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd angen ystyried darpariaethau'r Bil hwn fel rhan o'r rhaglen deddfwriaethol ehangach hon yn y pen draw.

Diben y Bil hwn yw cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a'i brif waith fydd casglu a rheoli trethi datganoledig;
- rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau cyfatebol ar drethdalwyr ac eraill) mewn perthynas â chyflwyno ffurflenni treth a chynnal ymchwiliadau ac asesiadau i alluogi ACC i nodi a chasglu swm priodol o drethi datganoledig sy'n ddyledus gan drethdalwyr;
- pwerau ymchwilio a gorfodi sifil cynhwysfawr, yn cynnwys pwerau sy'n galluogi ACC i ofyn am wybodaeth a dogfennau ac i asesu ac archwilio adeiladau a mathau eraill o eiddo;
- dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog dan rai amgylchiadau;
- hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath;
- cyflwyno pwerau gorfodi troseddol i ACC.

Ar wahân i rai darpariaethau technegol, cychwynnir y Bil gan Orchymyn.

Adran	Disgrifiad	Bwriad y Polisi
RHAN 2: Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)		
Rhan 2, a3(3)	Gall Gweinidogion Cymru newid unrhyw rai o'r niferoedd yn adran 3(1) drwy reoliadau – yr adran sy'n nodi y dylai Awdurdod Cyllid Cymru gynnwys cadeirydd, dim llai na 3 a dim mwy na 8 aelod anweithredol, y prif weithredwyr ac 1 neu 2 aelod o staff ACC.	Dim ond os ystyrir bod nifer yr aelodau ar y bwrdd yn cyfyngu ar allu neu'n andwylol i allu ACC i weithredu'n llwyddiannus y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio ar y cyfan. Bwriad y polisi yw i'r bwrdd gynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol bob amser.
Rhan 2, a 4(k)	Mae Adran 4 yn nodi'r swyddi sy'n atal unigolyn rhag bod yn aelod anweithredol o Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Dywed 4(2)(k) y gall Gweinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, bod deiliaid swyddi ychwanegol, neu aelodau staff corff yn cael eu hanghymhwyso hefyd.	Mae'r swyddi sy'n anghymhwyso unigolyn rhag bod yn aelod anweithredol wedi'u rhestru ar wyneb y Bil. Dim ond i newid y rhestr os yw amgylchiadau yn newid yn sylweddol, er enghraifft creu swydd gyhoeddus newydd, y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio ar y cyfan.
Rhan 2, a13(a)	O dan adran 13(1), gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau yn pennu unigolion y gall ACC ddirprwyo ei swyddogaethau iddynt.	Rydym yn rhagweld y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i alluogi ACC i ddirprwyo swyddogaethau casglu a rheoli trethi o adeg eu sefydlu. Cafodd y cyrff a allai gael eu pennu mewn rheoliadau fel rhai y gallai ACC ddirprwyo swyddogaethau iddynt eu nodi mewn datganiad ysgrifenedig ar 30 Mehefin 2015.
Rhan 2, a14(1)	Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau cyffredinol i ACC.	Y bwriad yw y gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, gan Weinidogion Cymru i gyflwyno cylch gwaith blynyddol ACC i bennu blaenoriaethau polisi. Byddai unrhyw gylch gwaith o'r fath yn cael ei gyhoeddi. Dan amgylchiadau eithriadol, gallai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ACC pan fyddant yn ystyried bod angen ymyrryd i sicrhau bod trethi datganoledig yn cael eu casglu a'u rheoli'n effeithiol ac effeithlon.
Rhan 2, a17 (2)	Mae Adran 16 yn atal swyddog perthnasol rhag datgelu gwybodaeth am drethdalwyr (fel y'i diffinnir yn adran 16(2)) oni bai ei fod wedi'i ganiatáu'n benodol. Mae torri'r gofyniad hwn yn drosedd o dan adran 19.	Y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio er mwyn i gyrff allu rhannu gwybodaeth er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

	Mae Adran 17 (1) yn nodi'r amodau lle caniateir datgelu gwybodaeth am drethdalwyr. Dywed Adran 17(2) y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio isadran (1) drwy reoliadau.	
Rhan 2, a26(7)(a)	Mae Adran 26 yn datgan bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru baratoi cynllun corfforaethol. Bydd cyfnod cynllunio ar gyfer pob cynllun corfforaethol, ac mae adran 26(7)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliad i bennu'r cyfnod cynllunio cyntaf.	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r cyfnod cynllunio y bydd cynllun corfforaethol ACC yn ei gwmpasu. Bydd y cynllun corfforaethol yn nodi prif amcanion ACC, y canlyniadau a fyddai'n dangos bod yr amcanion hynny wedi'u cyflawni a gweithgareddau y mae disgwyl i ACC eu cyflawni. Bydd ACC yn gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Bydd ACC angen amser i baratoi, ystyried ac ymgynghori ar y cynllun corfforaethol cyntaf. Mae Adran 26(9) yn datgan bod rhaid cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o fewn 6 mis i sefydlu ACC. Mae'r rheoliadau'n datgan y gall Gweinidogion Cymru bennu cyfnod cynllunio cyntaf a gweithredu hwn yn barod ar gyfer sefydlu ACC.
Rhan 2, a26(8)	Dywed Adran 26(7)(b), pan fydd Gweinidogion Cymru wedi pennu'r cyfnod cynllunio cyntaf (ar gyfer y cynllun corfforaethol), bydd pob cyfnod wedi hynny yn para am dair blynedd. Dywed Adran 26(8) y gall Gweinidogion Cymru gyflwyno gorchymyn i ddisodli'r cyfnod tair blynedd hwn gyda chyfnod arall fel yr ystyriant sy'n briodol.	Dim ond os oedd sail resymegol gref dros ddiwygio'r cyfnod cynllunio, yn gysylltiedig â gweithredu'r ACC yn effeithiol ac effeithlon y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio ar y cyfan.
RHAN 3: FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU		
Rhan 3, a36 (6)	Pŵer i wneud rheoliad i nodi cofnodion neu ddogfennau ategol penodol ar gyfer ffurflenni treth sy'n dod o fewn y ddyletswydd i gadw a gwarchod neu beidio.	Y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd i ddiweddarau'r darpariaethau. Er enghraifft, gall technoleg newydd olygu y bydd cofnodion neu ddogfennau ategol ar gyfer ffurflenni treth fod mewn ffurf wahanol.

Rhan 3, a37 (b)	Mae Adran 36 yn nodi dyletswydd trethdalwyr i gadw a gwarchod cofnodion. Dywed Adran 37 y gellir cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 36 drwy gadw'r wybodaeth a gedwir mewn cofnodion ar unrhyw ffurf ac mewn unrhyw fodd, yn amodol ar unrhyw amodau neu eithriadau a nodir gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 37(b)	Y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd i ddiweddarau'r darpariaethau. Er enghraifft, gall technoleg newydd olygu y bydd cofnodion neu ddogfennau ategol ar gyfer ffurflenni treth fod mewn ffurf wahanol, ac felly bydd angen darpariaethau gwahanol ar gyfer eu cadw.
Rhan 3, a39 (3)(b)	Pŵer i wneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r dyddiad perthnasol ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth.	Dim ond pan fydd yna sail resymegol dros ddiwygio'r dyddiad ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth, yn gysylltiedig â gweithredu'r ACC yn effeithiol ac effeithlon, y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio ar y cyfan.
Rhan 3, a50 (7)	Mae Adran 50 yn datgan y gall ACC benderfynu ar dreth i'w chodi os na chyflwynir ffurflen dreth. Mae isadran (6) yn datgan na all ACC wneud penderfyniad ar ôl mwy na 4 blynedd wedi'r dyddiad perthnasol. Mae isadran (7) yn nodi mai'r dyddiad perthnasol yw naill ai'r diwrnod ffeilio perthnasol neu ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei bennu drwy reoliadau.	Y bwriad yw i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio pe gwelid yn ystod y gwaith o gasglu trethi datganoledig bod angen diwygio'r dyddiad cyflwyno perthnasol i sicrhau bod treth sy'n ddyledus yn cael ei thalu.
Rhan 3, a64 (1)	Mae Adran 62 yn darparu amddiffyniad i hawliad i ACC am ad-daliad treth a ordalwyd. Mae'r amddiffyniad yn nodi y byddai <i>“repayment or, as the case may be, discharge of the amount would unjustly enrich the claimant.”</i> Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i sicrhau bod trefniadau ad-dalu a wnaed gan unrhyw berson yn cael eu hanwybyddu at ddibenion adran 62, ac eithrio pan fo'r person yn	Pwrpas y darpariaethau yw atal ad-daliadau o dreth a ordalwyd pan nad yw'r unigolyn trethadwy wedi ysgwyddo cost y dreth a ordalwyd mewn gwirionedd. Mae hyn ar y sail y byddai unrhyw ad-daliad yn annisgwyl i'r unigolyn trethadwy (ac felly'n ei gyfoethogi'n anghyfiawn). Mewn geiriau eraill, ni wneir ad-daliad pan fo cost y dreth wedi'i throsglwyddo (i'r cwsmer fel arfer). Fodd bynnag, os yw'r unigolyn trethadwy yn dioddef colled neu niwed yn sgil trosglwyddo'r gost ni fydd yr ad-daliad o'r dreth a ordalwyd yn arwain at daliad annisgwyl. O dan yr amgylchiadau hyn, caniateir ad-daliad i'r graddau mae'n digolledu'r unigolyn trethadwy am ei golled neu niwed. Ar hyn o bryd, defnyddir y pŵer gwneud rheoliadau cyfwerth o dan ddeddfwriaeth y

	<p>cydymffurfio â'r trefniadau sy'n ofynnol gan y rheoliadau hynny.</p> <p>Gall rheoliadau o dan yr adran hon, ymysg pethau eraill, osod rhwymedigaethau ar unigolion a bennwyd yn y rheoliadau i gyflwyno taliadau i ACC.</p> <p>Gall rheoliadau o dan yr adran hon ddarparu ar gyfer cosbau hefyd.</p>	<p>DU i ddarparu ar gyfer y 'cynllun' ad-dalu. Nid yw'r cynllun yn orfodol gan ei fod yn rhoi dewis i weithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig sy'n derbyn y byddent yn elwa'n anghyfiawn drwy dderbyn ad-daliad treth. Gallant naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wneud dim; neu • hawlio'r ad-daliad. Os byddant yn gwneud hynny mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â thelerau'r cynllun ac ad-dalu defnyddwyr mewn modd penodol.
Rhan 3, a67(3)	<p>Mae Adran 67 yn gosod dyletswydd i gadw a gwarchod cofnodion sy'n galluogi unigolyn i wneud hawliad i adennill treth a ordalwyd.</p> <p>Mae'r pŵer i wneud rheoliad yn a.67(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu cofnodion neu ddogfennau ategol penodol y dylid eu cadw a'u gwarchod i alluogi unigolyn i wneud hawliad cywir a chyflawn.</p>	<p>Y bwriad yw i'r pŵer gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd i ddiweddarau'r darpariaethau. Er enghraifft, gall technoleg newydd olygu y bydd cofnodion neu ddogfennau ategol ar gyfer ffurflenni treth fod mewn ffurf wahanol.</p>
Rhan 3, a68 (b)	<p>Dywed Adran 68 y gellir cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 67 drwy gadw'r wybodaeth a gedwir mewn cofnodion ar unrhyw ffurf ac mewn unrhyw fodd, yn amodol ar unrhyw amodau neu eithriadau a nodir gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 68(b).</p>	<p>Y bwriad yw i'r pŵer gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd i ddiweddarau'r darpariaethau. Er enghraifft, gall technoleg newydd olygu y bydd cofnodion neu ddogfennau ategol ar gyfer ffurflenni treth fod mewn ffurf wahanol ac felly bydd angen darpariaethau gwahanol ar gyfer eu cadw.</p>
RHAN 4: PWERAU YMCHWILIO ACC		
Rhan 4, a83 (2)	<p>Mae Adran 83 yn egluro'r hyn a olygir yn Rhan 4 wrth sôn am '<i>carrying on a business</i>'.</p> <p>Mae Adran 83(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy reoliad, pa weithgareddau</p>	<p>Byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio pe byddai angen diffiniad ehangach o '<i>carrying on a business</i>' ar gyfer casglu trethi'n deg ac effeithlon, er enghraifft i gwmpasu diffiniad ehangach o fusnes tirlenwi.</p>

	sydd i'w trin/nad ydynt i'w trin fel achos o fusnes yn parhau.	
Rhan 4, a94 (2)	Mae Adran 93 yn nodi'r amodau ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio. Dywed Adran 94 (1) y gellir defnyddio copi o ddogfennau i gydymffurfio oni bai bod yr hysbysiad yn gofyn am ddogfennau gwreiddiol. Mae rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 94 (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno amodau ac eithriadau sy'n gysylltiedig ag isadran (1).	Y bwriad yw i'r pŵer gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd i ddiweddaru'r darpariaethau ynglŷn â chopiau o ddogfennau gwreiddiol.
Rhan 4, a99 (3)	Mae rheoliadau i wneud darpariaethau i Dribiwnlys ddatrys unrhyw anghydfod ynghylch a yw gwybodaeth neu ddogfen (y gofynnir amdani mewn hysbysiad gwybodaeth) yn fraint gyfreithiol.	Efallai y bydd angen diweddaru materion gweinyddol sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau gan Dribiwnlys ynghylch hysbysiadau gwybodaeth (ac a yw'r dogfennau sy'n cefnogi'r hysbysiadau yn fraint gyfreithiol) o bryd i'w gilydd.
RHAN 5: TALU COSBAU		
Rhan 5, a154	Pŵer i wneud rheoliadau am symiau'r cosbau a'r weithdrefn ar gyfer eu hasesu o dan Ran 5.	Dim ond i wneud newidiadau i symiau'r cosbau neu'r dull ar gyfer eu gweithredu, er enghraifft, i annog cydymffurfiaeth yng Nghymru neu i sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd â gweddill y DU, y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio.
RHAN 6: LLOG		
Rhan 6, a161(1)	Rheoliadau i alluogi Gweinidog Cymru i bennu cyfradd llog sy'n berthnasol i log talu'n hwyr.	Dim ond i wneud newidiadau i symiau llog, er enghraifft, i sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd â gweddill y DU, y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio.
Rhan 6, a161(2)	Rheoliadau i alluogi Gweinidog Cymru i bennu cyfradd llog sy'n berthnasol i log ad-dalu.	Dim ond i wneud newidiadau i symiau llog, er enghraifft, i sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd â gweddill y DU, y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio.
RHAN 7: TALU A GORFODI		
Rhan 7, a165	Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n datgan, pan fo unigolyn yn talu swm perthnasol o dreth, llog neu gosb i ACC gan ddefnyddio dull talu a bennir gan y rheoliadau, y bydd rhaid iddo hefyd dalu ffi a bennir gan, neu a benderfynir yn unol â'r rheoliadau.	Mae ACC yn disgwyl y bydd ef, neu'r sawl a awdurdodir ganddo, yn gorfod talu ffi mewn cysylltiad â defnyddio rhai dulliau talu a ddefnyddir gan drethdalwyr. Er enghraifft, ffi mewn cysylltiad â symiau a delir pan roddir caniatâd ar y we i dalu gyda cherdyn credyd. Y bwriad yw i'r pŵer gael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd i ddiweddaru'r

	Gall rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ar gyfer amser talu a'r ffordd o dalu'r ffi.	darpariaethau ar gyfer ffi am dalu (er enghraifft, ffi i gyd-fynd â thaliad drwy siec neu gerdyn credyd).
Rhan 7, a167 (6)	Dywed Adran 167(1) pan fo swm perthnasol o unrhyw un o'r disgrifiadau a nodir yn adran 162, (e.e. llog ar dreth ddatganoledig) yn daladwy gan unigolyn, ac nad yw'n uwch na £2,000, bod y swm hwnnw i'w adennill fel dyled sifil. O dan isadran (6) gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliad, gynyddu'r swm a bennwyd yn isadran (1).	Mae'r pŵer yn ymwneud â'r swm y gellir ei adfer yn ddiannod fel dyled sifil, y gall fod angen ei ddiwygio o bryd i'w gilydd, er enghraifft, yn sgil chwyddiant.
RHAN 8: ADOLYGIADAU AC APELIADAU		
Rhan 8, a170(7)	Mae Adrannau 170(2) a (3) yn nodi'r penderfyniadau gan ACC y gellir apelio yn eu herbyn a'r rhai na ellir apelio yn eu herbyn. Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i ychwanegu neu ddileu penderfyniad o isadrannau (2) neu (3) neu amrywio disgrifiad o benderfyniad yn yr isadrannau hynny. Mae isadran 170(5) yn cyfyngu'r seiliau dros gyflwyno adolygiad neu apêl yn erbyn penderfyniadau penodol. Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i ddiwygio Rhan 8 i wneud darpariaeth sy'n nodi ar ba sail y gellir adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad.	Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid neu ddiwygio'r darpariaethau apelio i adlewyrchu, er enghraifft, amgylchiadau'r trethi datganoledig penodol wrth iddynt ddatblygu. Byddai'n rhaid ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori â threthdalwyr cyn cyflwyno'r newid hwn.

RHAN 9: YMCHWILIO I DROSEDDAU

<p>Rhan 9, a183 (1)</p>	<p>Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i gyfarwyddo bod unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 sy'n berthnasol i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan swyddogion yr heddlu neu i gadw unigolion yn y ddalfa gan yr heddlu yn berthnasol i ymchwiliadau a gynhelir gan ACC. Gallant hefyd wneud darpariaeth sy'n caniatáu i unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth a roddwyd i Awdurdod Cyllid Cymru gan y rheoliadau ddefnyddio grym rhesymol wrth gyflawni swyddogaeth o'r fath.</p>	<p>Mae Adran 183 yn diwygio Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 1984 ("PACE") i ddarparu pŵer i Weindogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso rhai o ddarpariaethau PACE i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan ACC.</p> <p>Byddai hyn yn galluogi ACC i ddefnyddio pwerau PACE penodol wrth ymchwilio i wahanol droseddau sy'n ymwneud â threthi datganoledig, fel troseddau a grëwyd yn y bil hwn, a'r rhai a sefydlwyd gan Ddeddf Twyll 2006, neu'r drosedd gyfraith gyffredin o dwyllo refferniw cyhoeddus.</p> <p>Mae'r pwerau a ddarparwyd gan PACE yn cynnwys adnoddau safonol ymchwiliadau troseddol fel gwarant chwilio, y pŵer i arestio a chadw unigolyn mewn cysylltiad ag ymchwiliad; a gorchmynion sy'n gofyn am gynhyrchu gwybodaeth benodol.</p> <p>Mae Adran 114 o PACE yn darparu pŵer tebyg i Drysorlys EM i ddefnyddio rhai o ddarpariaethau PACE mewn ymchwiliadau troseddol i droseddau a gynhelir gan CThEM.</p> <p>Byddai'n rhaid ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd cyn y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i gyflwyno unrhyw bwerau ychwanegol.</p>
<p>Rhan 9, a183 (2)</p>	<p>Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i gyfarwyddo bod unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn berthnasol i ymchwiliadau a gynhelir gan ACC. Gallant hefyd wneud darpariaeth sy'n caniatáu i unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth a roddwyd i Awdurdod Cyllid Cymru gan y rheoliadau ddefnyddio grym rhesymol wrth gyflawni swyddogaeth o'r fath.</p>	<p>Mae Adran 183(2) yn darparu pŵer i Weindogion Cymru wneud rheoliadau i ddefnyddio'r darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 ("y CIPA") mewn ymchwiliadau a gynhelir gan ACC, sy'n rhoi pwerau penodol i ymchwilyr atafaelu a chadw deunydd y daethpwyd o hyd iddo wrth chwilio.</p> <p>Byddai'n rhaid ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd cyn y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i gyflwyno unrhyw bwerau ychwanegol.</p>

Rhan 9, a184(4)	Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno Gorchymyn bod cyfeiriad penodol yn Neddf Enillion Troseddau 2002 at ymchwilydd ariannol achrededig yn cynnwys cyfeiriad at unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth Awdurdod Cyllid Cymru sy'n dod o dan ddisgrifiad penodol.	<p>Mae Adran 184 yn darparu ar gyfer gwahanol newidiadau i Ddeddf Enillion Troseddau 2002 ("POCA") i alluogi ACC ddefnyddio rhai pwerau sydd wedi'u cynnwys yn POCA.</p> <p>Bydd isadran (4) yn cyflwyno pŵer gwneud Gorchymyn newydd fel rhan o POCA fel y gall Gweinidogion Cymru bennu pa staff yn ACC sy'n gallu cyflawni swyddogaethau penodol o dan POCA, a fydd yn galluogi ACC i adennill enillion ymddygiad troseddol sy'n gysylltiedig â threthi datganoledig.</p>
Rhan 9, a185 (2)(b)	Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno Gorchymyn o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i nodi unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau ACC fel unigolion a ddynodwyd at ddibenion adrannau 28 a 29 y Ddeddf honno.	<p>Mae Adran 185 yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ("RIPA") er mwyn i ACC gael pwerau penodol i gynnal gwaith cuddwyllo dan gyfarwyddyd (fel y'i diffiniwyd gan adran 26(2) o RIPA), a gwaith cuddwyllo gwybodaeth ddynol cudd (fel y'i diffiniwyd gan adran 28(2) o RIPA, yn amodol ar fesurau diogelwch angenrheidiol a ddarperir gan RIPA.</p> <p>Bydd isadran (2)(b) yn cyflwyno pŵer gwneud Gorchymyn newydd yn RIPA i alluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r unigolion yn ACC sy'n gallu rhoi caniatâd ar gyfer cuddwyllo dan gyfarwyddyd neu guddwyllo gwybodaeth ddynol cudd o dan adrannau 28 a 29 o RIPA.</p>
Cyffredinol		
Rhan 10, a.186 (1)	Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu arbed er mwyn rhoi darpariaeth yn y Bil ar waith yn llawn.	<p>Dim ond ar gyfer materion fel gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall sy'n angenrheidiol yn sgil darpariaethau'r Bil hwn, neu i ymdrin â manylion na ellir mo'u rhagweld sy'n codi yn sgil gweithredu'r system newydd, y bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio.</p> <p>Mae'r elfennau trosiannol, arbed a chanlyniadol wedi'u bwriadu i ymdrin â'r broses o symud o un drefn i drefn arall, fel bod y broses yn digwydd mor "ddi-dor" â phosibl a bod y ddeddf newydd yn gweithio.</p>